

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020

Paratowyd y nodyn hwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn dilyn penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes ar 27 Mawrth 2020 a 3 Ebrill 2020 [ynghylch delio, dros dro, ag offerynnau statudol](#) a osodwyd gerbron y Cynulliad.

Crynodeb

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020 (**y GDCD**).

Yn benodol, mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 2 i'r GDCD trwy fewnosod Rhan 12A newydd (Datblygu Brys gan Awdurdodau Lleol) i ganiatáu i awdurdodau lleol wneud gwaith datblygu penodol mewn argyfwng yn unol â'r Rhan honno. At y dibenion hyn, ystyr argyfwng yw digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth gwneud niwed difrifol i les pobl mewn lle yn y Deyrnas Unedig.

Y datblygu a ganiateir yw datblygu at ddibenion—

- (a) atal argyfwng,
- (b) lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau argyfwng, neu
- (c) cymryd camau eraill mewn cysylltiad ag argyfwng.

Gweithdrefn

Negyddol.

Pwyntiau Ychwanegol i Nodi

Nodwyd y pwynt canlynol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn.

1. Torri'r rheol 21 diwrnod

Rydym yn nodi torri'r rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad a'r dyddiad y daw'r is-ddeddfwriaeth i rym), a'r esboniad am y toriad a ddarparwyd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, i'r Llywydd mewn llythyr dyddiedig 30 Mawrth 2020.

Yn arbennig, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud am y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y diwrnod y cafodd ei osod:

"Mae'n ofynnol i'r Gorchymyn ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio eu tir at ddiben gwaith datblygu yn unol â Rhan 12A. Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, fod modd defnyddio adeiladau fel canolfannau hamdden at ddiben gofal ysbyty. Os na ddaw'r Gorchymyn i rym, bydd gofyn i awdurdodau lleol wneud cais am ganiatâd cynllunio er mwyn cyflawni gwaith datblygu o'r fath. Nod y Gorchymyn yw osgoi'r oedi anochel y byddai'r broses o wneud a phrosesu ceisiadau o'r fath yn ei olygu. Yng ngoleuni'r amgylchiadau o ran COVID-19, sy'n perthyn i gategori "argyfwng" at ddibenion y Gorchymyn, ac yn benodol y ffaith bod y sefyllfa yn datblygu mor gyflym, ystyrir nad oes angen na chyfiawnhad dros lynu at y rheol 21 diwrnod yn yr achos hwn.



Gwasanaethau Cyfreithiol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
7 Ebrill 2020



Gwasanaethau Cyfreithiol | Legal Services
Nodyn i Aelodau | Note to Members